

Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016



Parc Dŵr y Sandy, Llanelli



Dyddiad: Ionawr 2017
Adolygyd: Awst 2017
Adolygyd: Chwefror 2019

CYNNWYS

ADRAN	TEITL	TUD
	Rhagair yr Hyrwyddwr Bioamrywiaeth	1
	Rhagair y Cyfarwyddwr	2
1	Trosolwg	3
2	Adnoddau Naturiol Sir Gaerfyrddin	3
3	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	5
4	Cyd-destun Strategol	7
5	Blaengynllun – Camau Gweithredu'r Is-adrannau	11
6	Atodiadau	13



Bee Orchid Berwick ©Kath Pryce

RHAGAIR YR HYRWYDDWR BIOAMRYWIAETH

Fel Hyrwyddwr Bioamrywiaeth rwy'n credu y bydd gweithredu'r Blaengynllun hwn, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn cychwyn y broses o sefydlu bioamrywiaeth fel rhan naturiol ac annatod o lunio polisi a gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, ac y bydd yn dod yn rhan greiddiol o'i gynlluniau, ei bolisiâu a'i brosiectau, a'i weithgareddau o ddydd i ddydd.

Braf yw gweld y cysylltiadau cryf y cysylltiadau cryf rhwng Deddf rhwng Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a'r pwysigrwydd sy'n cael ei roi ar yr amgylchedd naturiol bellach gan y ddeddfwriaeth hon.

Yn Sir Gaerfyrddin rydym yn ymwybodol o'n hamgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol, a'r buddion lu y mae'n eu darparu inni, ac rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau i warchod yr adnodd amhrisiadwy hwn o ddifrif.



Cyng. Phillip Hughes



Porth Tywyn

RHAGAIR Y CYFARWYDDWR

Mae'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau a gyflwynir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu cyfeiriad clir o ran gwarchod bioamrywiaeth ac ecosystemau cynaliadwy, ac mae hynny i'w groesawu. Er bod hyn yn her inni mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i'r Cyngor Sir i dargedu blaenoriaethau ac adnoddau tuag at wella ecosystemau amrywiol Sir Gaerfyrddin a'r rheini, mewn rhai achosion, yn ecosystemau unigryw.

Credaf fod y Blaengynllun hwn yn cyflwyno trefn realistig o ran yr hyn y gallwn ei gyflawni yn y tymor cyntaf, a'i fod yn nodi fframwaith y byddwn yn parhau i'w ddatblygu. Rydym wedi dangos sut y byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws yr awdurdod i ddatblygu'n dealltwriaeth o fioamrywiaeth, a sicrhau ein bod yn ymgorffori camau yn ein holl brosesau busnes a datblygu prosiectau i geisio cyfleoedd i gynnal a gwella'n hamgylchedd naturiol, a hyrwyddo cydnherthedd ecosystemau.



Ruth Mullen, Cyfarwyddwr,
Adran yr Amgylchedd

1. TROSOLWGW

- Cafodd y cynllun hwn ei gyhoeddi i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod o fewn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O dan y Ddeddf hon rhaid i bob corff cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'.
- Mae gofyn i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi cynllun i ddangos sut mae'n bwriadu cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau hon.
- Mae amgylchedd naturiol iach yn helpu cymdeithas a'r economi i ffynnu. Gall ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau ein helpu mewn llawer o ffyrdd: drwy leihau llifogydd, gwella ansawdd yr aer a chyflenwi defnyddiau ar gyfer adeiladau. Maent hefyd yn darparu cartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, ac maent yn rhoi tirweddau yr ydym yn eu gwerthfawrogi yn Sir Gaerfyrddin, sydd yn ysgogi mewnfuddsoddi a thwristiaeth.
- Cydnabyddir yn eang erbyn hyn, fodd bynnag, fod ein hadnoddau naturiol yn dod o dan bwysau cynyddol oherwydd amrywiaeth o achosion, megis datblygu, dwysáu amaethyddol, llygredd a newid yn yr hinsawdd. Mae amgylchedd naturiol sy'n cael ei reoli'n wael yn cynyddu'r risg tymor hir i'n llesiant, e.e. cynnydd mewn difrifoldeb llifogydd, dirywiad yn ansawdd dŵr ein hafonydd.
- Mae gwella'r ffordd y caiff adnoddau naturiol eu rheoli yng Nghymru yn golygu y byddwn yn gallu mynd i'r afael â'r sialensiau hyn. Mae angen inni ofalu am ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau fel y gallant barhau i gyflenwi inni yr holl fuddion y maent yn eu rhoi inni. Rhaid i'n holl benderfyniadau ystyried yr effaith ar yr amgylchedd naturiol ac ystyried y potensial i'w wneud yn fwy cydnerth.

Yn y cynllun hwn bydd yr Awdurdod:

- Yn amlinellu adnoddau naturiol Sir Gaerfyrddin, pam maen nhw mor bwysig, a rhai o'r gweithgareddau sydd eisoes ar waith i'w hamddiffyn.
- Yn egluro'r cefndir deddfwriaethol a'r cyd-destun cenedlaethol a lleol i'r adroddiad o ran polisi a chynlluniau.
- Yn nodi sut y mae/bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu.
- Yn darparu camau gweithredu manwl sydd i'w cyflawni, gyda cherrig milltir i adrodd arnynt mewn dogfen 'fyw' ar wahân.

2. ADNODDAU NATURIOL SIR GAERFYRDDIN

Beth yw bioamrywiaeth?

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth bywyd ar y Ddaear. Mae'n cynnwys pob bod byw (yn cynnwys pobl), eu hamrywiadau genetig a'r ecosystemau y maent yn dibynnu arnynt. Mae bioamrywiaeth ym mhobman: mewn gerddi, caeau, gwrychoedd, mynyddoedd, afonydd ac yn y môr. Mae bioamrywiaeth yn cynrychioli ansawdd bywyd. Mae'n rhoi pleser, diddordeb a gwerthfawrogiad o'n hamgylchedd naturiol.

Pam mae bioamrywiaeth yn bwysig?

Mae amgylchedd naturiol Cymru yn cynnal amrywiaeth enfawr o fywyd gwylt, ond rhaid inni gofio bod bioamrywiaeth hefyd yn cynnal ein bywydau ni. Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o gymunedau cynaliadwy a chryf yng Nghymru. Mae bywyd gwylt a chynefinoedd naturiol yn rhoi inni bleser, ysbrydoliaeth a chymunedau deniadol ac yn cyfrannu at ymdeimlad o le.

Mae amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yn bwysig i bawb ohonom – mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Er nad yw wastad yn amlwg, mae bioamrywiaeth yn rhoi inni lawer o bethau sy'n cynnal ein bywydau, drwy nifer o wasanaethau pwysig:

1. **Gwasanaethau darparu** – bwyd (gwenith, pysgod, ac ati.), tanwydd (pren, glo), dŵr croyw, meddyginiaethau, tecstilau.
2. **Gwasanaethau rheoleiddio** – gwaredu llygryddion, rheoli llifogydd, amsugno carbon deuocsid (nwyon tŷ gwydr), atal erydu.
3. **Gwasanaethau cynnal** – yn cynnal priddoedd a thwf planhigion.
4. **Gwasanaethau diwylliannol** – tirweddau hardd, ymdeimlad o le, hamdden a thwristiaeth, ysbrydoliaeth ac ymchwilio, o blant ysgol i wyddonwyr.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan **Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**.

Mae bioamrywiaeth yn bwysig am amrywiaeth eang o resymau: moesegol, emosiynol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n greiddiol i'n cymdeithas ac yn sylfaen i'n llwyddiant economaidd a'n llesiant.

Cawn lawer o'r gwasanaethau hyn am ddim! Byddai cost darpariaeth amgen yn lle'r rhain (pe bai'n bosibl) yn hynod o ddud. Er enghraifft, mae gwenyn yn holl-bwysig i'n heconomi – maent yn peillio llawer o'n cnydau megis mefus ac afalau yn ogystal â chnydau porthiant ar gyfer anifeiliaid megis meillion. Amcangyfrifir y byddai'n costio £1.8 biliwn y flwyddyn i ffermwyr y Deyrnas Unedig beillio'u cnydau heb wenyn (Canllaw Gweithredu Caru Gwenyn LIC).

Mae daeareg waelodol, daearyddiaeth a hydroleg y sir yn caniatáu i lawer o wasanaethau ecosystem pwysig weithio a gwella'n bywydau. Dyma rai enghreifftiau:

- **Mawndir** – mae priddoedd mawn yn dal a storio carbon deuocsid yn yr atmosffer a gellir ei ddal yn y pridd yn barhaol pan mae'r pridd mewn cyflwr da.
- **Morfa heli ar yr arfordir** – mae'n help i wanhau arwaith y tonnau a llanw uchel i atal llifogydd ac erydu'r arfordir.
- **Gorlifdiroedd yn y dyffrynnoedd** – maent yn helpu i ddal dŵr ar ôl glawiad mawr gan leihau llifogydd ymhellach i lawr yr afon.
- **Glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau** – mae'n darparu cynefin hanfodol a chysylltedd i bryfed peillio a bwyd i dda byw. Mae glaswelltiroedd llaith yn gweithredu fel sbyngau, yn storio dŵr a'i ryddhau'n araf.
- **Coetiroedd** – maent yn helpu i lanhau'r aer o lygryddion, yn darparu ocsigen a chynnyrch coed.

Daw'r cynefinoedd amrywiol â chyfleoedd gwaith hefyd, yn arbennig yn y sector twristiaeth - mae Sir Gaerfyrddin yn adnabyddus am ei harfordir godidog, ei thraethau tywodlyd, ei choedwigoedd ar gyfer beicio mynydd a'r uwchdiroedd ar gyfer cerdded.

Mae nifer o safleoedd yn Sir Gaerfyrddin wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth natur. Mae'r rhain yn cynnwys dynodiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r cynefinoedd arbennig hyn yn cynnal rhai poblogaethau o bwys cenedlaethol o rywogaethau megis iâr fach yr haf britheg y gors, llygod pengrwn y dŵr a'r wiwer goch.

3. DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016

Daeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ddeddf ar 21ain Mawrth 2016. Mae'n sefydlu deddfwriaeth fel bod modd rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig ac mae'n gosod y fframwaith deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn ategu cylch gwaith ehangach Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gweler isod), gan sicrhau bod Cymru'n elwa o economi sy'n ffynnu, amgylchedd iach a chydnerth a chymunedau bywiog a chydlynus.

Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Mae'n ofynnol yn ôl Adran 6 o'r ddeddf i bob **awdurdod cyhoeddus** 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol'.

Mae'r ddyletswydd yn disodli dyletswydd Adran 40 yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, mewn perthynas â Chymru, ac mae'n berthnasol i'r awdurdodau hynny a ddeuai o fewn y ddyletswydd flaenorol. Daeth y ddyletswydd i rym ym mis Mai 2016.

Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion.

Y bwriad yw sicrhau y bydd awdurdodau lleol, wrth gyflawni'u swyddogaethau:

1. Yn cynnwys bioamrywiaeth fel rhan naturiol ac annatod o lunio polisi a gwneud penderfyniadau, ac y bydd yn dod yn rhan greiddiol o'u cynlluniau, eu polisiau a'u prosiectau, a'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.
2. Yn rhoi sylw i'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, drwy weithredu cadarnhaol a fydd yn arwain at gynnal neu wella'n bioamrywiaeth.
3. Yn datblygu cydnerthedd ecosystemau drwy gynnal a gwella bioamrywiaeth.

Mae ecosystem gydnerth yn un sy'n iach ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n gallu ymateb i'r pwysau a'r galwadau a roddir arni, ac yn gallu darparu buddion yn y tymor hir i ddiwallu'r anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar y pryd. Mae ein hecosystemau yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau a buddion inni. Mae angen inni ystyried y rhain **i gyd** wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i'w defnyddio, fel eu bod yn darparu buddion lluosog yn y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys ystyried eu gwerth cynhenid.

Mae'n rhan o fframwaith cyflenwi ehangach er rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (**Atodiad 2**).

Rhestrau Bioamrywiaeth

Rhaid i Lywodraeth Cymru (ar ôl ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru) baratoi a chyhoeddi rhestr o rywogaethau a chynefinoedd sydd yn ei barn hi o'r pwys pennaf i'r diben o gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru ('rhestr Adran 7'). Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r organebau byw a'r mathau o gynefinoedd a gynhwysir ar y rhestr hon. Mae hon yn disodli'r rhestr a grëwyd o dan Adran 42 o ddyletswydd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig.

Yn Sir Gaerfyrddin mae gennym lawer o'r rhywogaethau blaenoriaeth hyn – mae rhai'n gyffredin ac eraill yn fwy prin. Mae ein rhywogaethau brodorol wedi dylanwadu ar hunaniaeth ddiwylliannol Sir Gaerfyrddin. Mae anifeiliaid a phlanhigion wedi dylanwadu ar enwau llawer o ffermydd, tai a strydoedd yn y sir. Mae'r rhywogaethau a'r cynefinoedd ar y rhestr hon sydd i'w cael yn Sir Gaerfyrddin i'w gweld yn:

www.sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth.

Blaengynllunio ac Adrodd

Yn wahanol i'r ddyletswydd flaenorol mae'r ddyletswydd newydd yn ei gwneud yn ofynnol dangos yn ffurfiol ein bod yn cydymffurfio. Mae'n ofynnol felly o dan y Ddeddf i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi sut mae'n bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd honno. Cafodd drafft cyntaf y cynllun hwn ei gynhyrchu ym mis Ionawr 2017. Erbyn diwedd 2019 mae'n ofynnol o dan y Ddeddf i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd, a rhaid adrodd ar hynny bob 3 blynedd.

Cynllun Adfer Natur Cymru

Lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun ei hun, **Cynllun Adfer Natur Cymru**, sy'n disgrifio'i hymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru, y materion y mae angen inni roi sylw iddynt, a'r amcanion gweithredu er mwyn dangos sut y gallwn ni, yng Nghymru, fynd i'r afael ag achosion gwaelodol colli bioamrywiaeth. Yn benodol drwy:

- Roi natur wrth galon y penderfyniadau a wnawn
- Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth
- Gweithredu'n benodol er lles cynefinoedd a rhywogaethau

Mae'n nodi sut y bydd Cymru'n gwireddu'r ymrwymadau yn y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ac yn Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE i atal y dirywiad yn ein bioamrywiaeth erbyn 2020, ac yna gwrthdroi'r dirywiad hwnnw. Uchelgais y cynllun yw: *Gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas.*

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn eu hategu.

Drwy fabwysiadu a chymhwyso amcanion y Cynllun Adfer Natur, gall awdurdodau lleol sicrhau wrth gyflawni'u swyddogaethau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd.

Bydd y drefn hon hefyd yn help i awdurdodau lleol gyflawni'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - yn arbennig gwireddu'r nod o Gymru Gydnerth, yn ogystal â llawer o'r nodau eraill. Mae **Atodiad 3** yn awgrymu ffyrdd i'r awdurdod gyflawni'r amcanion hyn (o ganllawiau LIC).

Amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru yw:

1. Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel
2. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well
3. Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd
4. Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd
5. Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro
6. Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Yn Sir Gaerfyrddin bwriedir datblygu Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin yn seiliedig ar amcanion y cynllun cenedlaethol.




Dros 400m o ffos newydd a grëwyd ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor ger Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir yn Llanelli. Mae hyn yn darparu cynefin newydd hollbwysig ar gyfer llygod pengrwn y dŵr prin ac mae wedi bod o gymorth i storio dŵr ar orlffdir arfordirol sy'n agored i lifogydd.

4. CYD-DESTUN STRATEGOL

4.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu fframwaith datblygu cynaliadwy cryfach, mwy cydlynus i Gymru drwy set o saith nod llesiant (**Atodiad 4**), egwyddor datblygu cynaliadwy, a dyletswydd gref ar bob corff cyhoeddus i ddatblygu'n gynaliadwy, gan adlewyrchu'r angen i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



- Fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i Gyrrff Cyhoeddus unigol baratoi a chyhoeddi amcanion llesiant wedi'u seilio ar y nodau llesiant ynghyd â datganiad ar yr amcanion llesiant erbyn 31 Mawrth 2017. Gellir cael hyd i'r rhain ar wefan y Cyngor.
- O ran y nod o 'Gymru gydnherth', o dan y Ddeddf mae gofyn i gyrrff cyhoeddus osod amcanion i wireddu 'amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol'. Mae hyn yn gofyn am ddull integredig ar draws y nodau llesiant, h.y. y ffaith fod bioamrywiaeth yn cyfrannu at ein heconomi ac iechyd a llesiant, ac ati.



Pathew ©J. Hartley

Sut mae ein hadnoddau naturiol yn cefnogi'r saith nod llesiant (o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol)

<p>Cymru lewyrchus</p>	<p>Mae adnoddau naturiol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gweithgarwch economaidd. Er enghraifft, mae twristiaeth bywyd gwyllt a gweithgareddau awyr-agored i Gymru yn darparu tua 206,000 o swyddi ac amcangyfrifir ei fod yn werth £6.2 biliwn. Yn 2013, bu i 3.5 miliwn a mwy o ymwelwyr â'n harfordir ddod â £602 miliwn i'r economi, a rhagwelir twf o 10%. Mae tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn denu 12 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, a'r rheini'n gwario £1 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau.</p>
<p>Cymru gydnerth</p>	<p>Mae bioamrywiaeth, mynyddoedd, gweundiroedd a rhosydd, glaswelltiroedd lled-naturiol, coetiroedd, mannau gwyrdd trefol, afonydd, nentydd, llynnoedd a gwlyptiroedd, yr arfordir ac ecosystemau morol oll yn cyfrannu at gefnogi gallu Cymru i addasu i newid yn yr hinsawdd.</p>
<p>Cymru iachach</p>	<p>Mae adnoddau naturiol yn gwneud cyfraniad sylweddol i iechyd corfforol a llesiant meddyliol pobl yng Nghymru. Er enghraifft, mae coed yn helpu i amsugno llygryddion a gwella ansawdd yr aer, sydd yn gallu effeithio ar iechyd pobl os yw'n wael. Mae mynediad i natur a mannau gwyrdd yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol.</p>
<p>Cymru sy'n fwy cyfartal</p>	<p>Mae mynediad cyfartal at ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau diwylliannol yn cyfrannu at gydraddoldeb yng Nghymru. Mae arnom eisiau sicrhau cyn lleied â phosibl o effeithiau negyddol a chynifer â phosibl o effeithiau cadarnhaol i bawb. Ar hyn o bryd, nid yw mynediad wedi'i ddsbarthu'n gyfartal (er enghraifft, nid yw pawb yn byw'n agos at fannau gwyrdd, ac mae rhai pobl yn byw mewn ardaloedd lle mae ansawdd yr aer yn well nag eraill).</p>
<p>Cymru o gymunedau cydlynus</p>	<p>Dangoswyd bod cynnwys cymunedau yn y gwaith o reoli eu parciau a'u coetiroedd lleol yn gwella cydlyniant y gymuned ac yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.</p>
<p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>	<p>Mae tirweddau wedi chwarae rhan arwyddocaol o ran datblygu arferion diwylliannol unigryw, megis technegau adeiladu lleol yn dibynnu ar ddefnyddiau lleol, ynghyd â chelf a llenyddiaeth leol benodol.</p>
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	<p>Mae'r amgylchedd yn darparu ein holl adnoddau o ran defnyddiau ond rhaid i ni sicrhau mai dim ond ein cyfran deg yr ydym yn ei defnyddio.</p>

Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Pum Ffordd o Weithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi **pum ffordd o weithio** y mae rhaid i gyrff cyhoeddus gadw atynt i ddangos sut maen nhw'n cyflawni'u dyletswydd. Rhaid nawr i unrhyw gynllun/prosiect ddangos ei fod yn dilyn y ffyrdd hyn o weithio.

- Edrych ar y **tymor hir** fel nad ydynt yn amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu'u hanghenion nhw
- Deall achosion gwaelodol y problemau i'w **hatal** rhag digwydd eto
- Gweithredu mewn modd **integredig** fel ein bod yn edrych ar nodau ac amcanion llesiant gwasanaethau a phartneriaid eraill
- **Cydweithio** – cydweithio ag eraill i ganfod atebion cynaliadwy ar y cyd
- **Cynnwys** – sicrhau bod amrywiaeth o blith y boblogaeth â llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw

4.2 Cynlluniau a Pholisiau'r Cyngor sy'n cysylltu â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

1. **Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin** – i'w gyhoeddi erbyn mis Mai 2018. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar lesiant dinasyddion a chymunedau'r Sir.
2. **Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin.** Mae strategaeth 2018 - 2023 yn amlinellu cyfeiriad yr Awdurdod Lleol dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys ein hamcanion llesiant a gwelliant fel y'u diffinnir gan ddeddfwriaeth. Mae'r Strategaeth yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y dyfodol ar ffurf 15 o amcanion newydd o dan bedair thema allweddol - cynorthwyo preswylwyr i ddechrau'n dda, i fyw'n dda, i heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus. Amcan 12 yw *Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.*
3. **Yn arbennig, mae sicrhau bod Deddf yr Amgylchedd yn rhan greiddiol o'n gwaith yn ategu'r pwyntiau ffocws canlynol yng Nghynllun Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin 2018:**
 2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw
 3. Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr
 6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir
 8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)
 9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel
 12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol
 13. Gwella isadeiledd a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth
 14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru
 15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau



Gwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig (Llanelli), lle gall y cyhoedd fwynhau amrywiaeth o gynefinoedd lled-naturiol a'r lliaws o rywogaethau a gaiff eu cynnal ganddynt.

4. **Cynlluniau a Strategaethau'r Cyngor**

Strategaeth Gorfforaethol 2018 - 2023

Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf

Trawsnewidiadau: cynllun adfywio strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin - 2015-2030

Cynllun Datblygu Lleol

Strategaeth a Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd

Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2016-2019

Cynlluniau Rheoli Asedau'r Gwasanaethau

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2019

Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd

Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin 2017-27

Llwybrau Diogel i'r Ysgol

Teithio Llesol – Sir Gar

Cynllun Strategol Drafft ar gyfer Pryfed Peillio

Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin (ar waith)

5. BLAENGYNLLUN – CAMAU GWEITHREDU'R IS-ADRANNAU

Sut y datblygwyd y cynllun gweithredu

Cafodd y cynllun gweithredu cyntaf hwn ei ddatblygu gan Adran yr Amgylchedd ar ei chyfer hi, drwy gyfres o weithdai/trafodaethau parhaus gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a chydweithwyr yn ei phedair is-adran, a ddechreuwyd am y tro cyntaf yn hwyr ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2016. Gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol adolygu'r gweithgareddau roedden nhw'n gyfrifol amdanynt, a nodi pa rai o'r rhain oedd â'r potensial i effeithio ar fioamrywiaeth a ble mae yna gyfleoedd i roi sylw, drwy newid arferion gwaith, i'r ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau a roddir ar gyrff cyhoeddus gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r camau gweithredu a nodwyd isod yn adlewyrchu'r trafodaethau hyn, ac maent wedi'u cylchredeg i Benaethiaid Gwasanaeth a phawb oedd yn bresennol yn y gweithdai cyn eu cynnwys yn y cynllun hwn.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn ddogfen ddeinamig. Caiff camau gweithredu eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd gan swyddogion ac ychwanegir at y rhestr weithredu wrth gael trafodaeth ag is-adrannau perthnasol eraill y Cyngor. Cynhwysir y camau gweithredu yn System Rheoli Perfformiad y Cyngor ac adroddir arnynt gan swyddogion arweiniol ddwywaith y flwyddyn drwy ddefnyddio'r system hon.

Caiff y cynllun gweithredu ei gyflwyno mewn dogfen Word ar wahân er mwyn ei ddiweddarau'n rheolaidd.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn barod

- Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n hyrwyddo'r polisiau amgylcheddol a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol perthnasol.
- Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin – mae'n darparu cyswllt rheolaidd rhwng mudiadau amgylcheddol sy'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin er mwyn gwireddu cyd-amcanion.
- Ymylon ffyrdd yn cael eu rheoli gan ddilyn cyngor y Swyddog Bioamrywiaeth.
- Creu ardaloedd heb eu torri mewn parciau cyhoeddus a mannau eraill, e.e. Parc Gwledig Pen-bre.
- Ailblannu coed a gollir drwy oedran/clefyd, e.e. Parc Dewi Sant.
- Arolygon cynefinoedd o ddatblygiadau ar dir sy'n eiddo i CSC, yn cynnwys ystlumod/llygod y dŵr/dyfrgwn/ infertebratau.
- Creu cynefinoedd a mannau bywyd gwyllt ar dir ysgolion.
- Neilltuo a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt i wneud iawn am brosiectau datblygu, e.e. Gorllewin Cross Hands/Adfywio Porth Tywyn/Ffordd Gyswllt Cross Hands.
- Cefnogi cynlluniau amaeth-amgylcheddol a chynlluniau rheoli coetir ar stad wledig CSC.
- Coed Cymru – hyrwyddo rheoli a chadw coetiroedd Sir Gaerfyrddin.
- Parciau Gwledig – darparu mannau gwyrdd naturiol i'r cyhoedd.
- Prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin.
- Prosiect Britheg y Gors Caeau Mynydd Mawr.

Gweithdai/Cyfarfodydd (2017 – Mawrth 2019) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Adran	Is-adran	Cyfarfod?	Cytunwyd ar amcanion?	Sylwadau
Prif Weithredwr	Gweinyddiaeth a'r Gyfraith			
	Rheoli Pobl			
	Adfywio a Pholisi			
	Technoleg Gwybodaeth			
Cymunedau	Tai, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Gofal a Gwasanaethau Cymorth	✓	✓	Tai
	Hamdden	✓	✓	Hamdden Awyr Agored / Mynediad i Gefn Gwlad
	Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu			
	Gwasanaethau Integredig			
	Tîm Perfformiad, Dadansoddi a Systemau			
Gwasanaethau Corfforaethol	Archwilio a Chaffael			
	Cyllid			
Addysg a Phlant	Gwasanaethau Plant			
	Gwasanaethau Addysg		✓	Cymorth ieuencid
	Cwricwlwm a Llesiant	✓		
	Effeithiolrwydd Ysgolion			
	Datblygu Strategol			
Amgylchedd	Cynllunio / Mwynau	✓	✓	
	Eiddo	✓	✓	
	Trafnidiaeth a Pheirianeg	✓	✓	
	Gwastraff a Gwasanaethau Amgylcheddol	✓	✓	

ATODIAD 1

Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau

Mae'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth newydd yn disodli ddyletswydd Adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yng Nghymru a roddai ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried cadw bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau.

1. Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnherthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.
2. Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried cydnherthedd ecosystemau, a'r agweddau a ganlyn yn benodol:
 - (a) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
 - (b) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
 - (c) graddfa ecosystemau;
 - (d) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);
 - (e) gallu ecosystemau i addasu.
3. Nid yw is-adran (1) yn gymwys i:
 - (a) arfer swyddogaeth gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, neu
 - (b) arfer un neu ragor o swyddogaethau barnwrol llys neu dribiwnlys.
4. Wrth gydymffurfio ag is-adran (1):
 - (a) rhaid i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron ac unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth roi sylw i Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992, a
 - (b) rhaid i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.
5. Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth roi sylw i:
 - (a) y rhestr a gyhoeddir o dan adran 7;
 - (b) yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddir o dan adran 8;
 - (c) unrhyw ddatganiad arall a gyhoeddir o dan adran 11 ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran o ardal y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi.

Ystyr "bioamrywiaeth" yw amrywiaeth organebau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem.

Y bwriad yw sicrhau y bydd awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni'u swyddogaethau, yn helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ond hefyd yn helpu i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol drwy gyfrannu at gydnerthedd ecosystemau.

Blaengynllunio ac Adrodd

- (6) Rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio ag is-adran (1).
- (7) Rhaid i awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio ag is-adran (1).
- (8) O ran awdurdod cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynllun o dan is-adran (6):
 - (a) rhaid iddo adolygu'r cynllun yng ngoleuni pob adroddiad a gyhoeddir ganddo o dan is-adran (7), a
 - (b) caiff adolygu'r cynllun unrhyw bryd.

Esboniad

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol *'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'*.

1. **Bioamrywiaeth** – yr amrywiaeth o rywogaethau a chynefinoedd sydd yn y sir.
2. **Ecosystem** – cymunedau o blanhigion ac anifeiliaid, ynghyd â nodweddion ffisegol anfyw eu hamgylchedd (e.e. daeareg, pridd a hinsawdd) wedi'u cydgysylltu yn system ecolegol drwy lifoedd maethol a chylchredau egni. e.e. coetiroedd, glaswelltiroedd, dŵr croyw

Beth yw cydnerthedd ecosystemau?

1. **Amrywiaeth** - yn gyffredinol, mae ecosystemau mwy amrywiol yn gallu gwrthsefyll dylanwadau allanol a'u heffeithiau yn well. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth fiolegol, amrywiaeth ddaearegol ac amrywiaeth ffisegol
2. **Maint ecosystem a'i hyd a'i lled.** Po fwyaf eang yw hyd a lled ecosystem y mwyaf abl fydd hi i ymdopi â tharfu, e.e. po fwyaf yw arwynebedd cynefin y mwyaf y boblogaeth o rywogaeth y gall ei chynnal – ffosydd yn ardal Llanelli gyda llygod pengrwn y dŵr - felly maent yn llai tebygol o ddarfod amdanynt a byddant yn fwy amrywiol yn enetig.
3. **Cyflwr yr ecosystem.** Os yw ecosystem mewn cyflwr gwael bydd dan bwysau a bydd ganddi lai o gapasiti i wrthsefyll, ymadfer neu addasu i fathau newydd o darfu neu i gyflenwi gwasanaethau ecosystem.
4. **Cysylltiadau o fewn ecosystemau a rhwng ecosystemau a'i gilydd.** Mae hyn yn berthnasol fel arfer i symudiadau organebau – o anifeiliaid yn chwilio am fwyd i wasgaru hadau a genynnau, ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Hefyd o safbwynt prosesau naturiol, e.e. dŵr yn cylchredeg o fewn tirwedd. Mae cysylltedd da hefyd yn caniatáu i ecosystemau adfer eu hunain yn haws pan derfir arnynt. Gall colli a darnio cynefinoedd arwain at lai o gysylltedd.
5. **Addasu i newid (e.e. newid yn yr hinsawdd).** Rhan bwysig o gydnerthedd sy'n caniatáu i ecosystemau addasu i newid.

ATODIAD 2

Mae Deddf yr Amgylchedd yn rhan o fframwaith cyflawni ehangach er rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

- **Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)** – fe'i cynhyrchwyd gan Adnoddau Naturiol Cymru. Mae'r adroddiad yn amlinellu sefyllfa adnoddau naturiol Cymru. Mae'n asesu i ba raddau y mae adnoddau naturiol yng Nghymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac yn argymhell ffordd ragweithiol o greu cydnerthedd. Ac – am y tro cyntaf – mae'r adroddiad yn creu'r cysylltiad rhwng cydnerthedd adnoddau naturiol Cymru a llesiant pobl Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar sut mae'r pwysau ar adnoddau naturiol Cymru yn arwain at risgiau a bygythiadau i lesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd tymor hir, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n edrych ar y materion allweddol, yn ogystal â'r cyfleoedd i ganfod atebion integredig sy'n cynnig manteision amryfal. Bydd SoNaRR **yn sylfaen i**
- **Polisi Adnoddau Naturiol** – wedi cael ei gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi'r blaenoriaethau o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel genedlaethol. Caiff y blaenoriaethau yn y polisi hwn eu cyflawni **ar lefel leol drwy**
- **Datganiadau Ardal** - yn cael eu cynhyrchu gan Cyfoeth Naturiol Cymru i hwyluso'r gwaith o weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol. Bydd datganiadau ardal yn nodi'r risgiau allweddol y mae angen eu rheoli'n ofalus a'u lliniaru ynghyd â'r cyfleoedd a'r blaenoriaethau allweddol o ran defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel ardal. Caiff y rhain eu cynhyrchu erbyn mis Rhagfyr 2019.

ATODIAD 3

Amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru

- | | |
|---|--|
| <ol style="list-style-type: none">1. Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel | <ol style="list-style-type: none">1. Blaengynllunio a rhoi cynlluniau ac arferion rheoli ar waith sy'n gwella bioamrywiaeth, e.e. torri llesol i annog blodau gwyllt a phryfed peillio, defnyddio coed a phlanhigion brodorol, defnyddio llai ar chwynladdwyr, plaladdwyr a dŵr ac osgoi defnyddio mawn.2. Annog swyddogion i ystyried y cysylltiad rhwng eu rôl nhw a bioamrywiaeth a darparu hyfforddiant arbenigol os oes angen.3. Ystyried y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth a swyddogaethau ehangach eich sefydliad megis: rheoli tir, rheoli gwastraff, cynnal a chadw adeiladau a defnyddio ynni.4. Gweithio gyda'ch partner sefydliadau i hyrwyddo bioamrywiaeth.5. Cynyddu mynediad at fioamrywiaeth, ymwybyddiaeth ohoni ac ymwneud â hi, e.e. cynnwys cymunedau lleol yn eich gwaith.7. Hyrwyddo manteision mynediad at fioamrywiaeth wrth gyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd, megis gofal cymdeithasol, datblygu cymunedol, iechyd a hamdden. |
|---|--|

<p>2. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Amddiffyn a chynyddu bioamrywiaeth ar eich tir chi ac ar dir rydych chi'n ei reoli. 2. Meddwl am ddyluniad safleoedd neu adeiladau newydd a all ddarparu buddion o ran bioamrywiaeth, e.e. a oes cyfleoedd i ddarparu cynefinoedd / lloches i fywyd gwyllt, waliau gwyrdd a thoeau gwyrdd neu fyw, defnyddio llai o ynni a gwella systemau draenio. 3. Gwneud yn fawr o'r cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth drwy eich gwaith gyda'ch partneriaid a'r cyhoedd, e.e. drwy ddarparu cyngor i'r gymuned fusnes, rhedeg cynllun gwobrau bioamrywiaeth, trefnu digwyddiadau bioamrywiaeth i'r gymuned leol etc. 4. Archwilio ffyrdd o arbed arian a chreu budd o ran bioamrywiaeth, e.e. lle mae bioamrywiaeth yn elwa o reoli tir yn llai dwys, er enghraifft torri llai ar borfa, defnyddio llai o wrtaith artiffisial, defnyddio gwastraff pren fel pentyrrau cynefin etc.
<p>3. Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Deall eich bioamrywiaeth leol a sut y gellir ei gwella; cynnal arolygon, ceisio cyngor arbenigol, defnyddio'ch Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol etc. 2. Defnyddio'r wybodaeth orau i sicrhau nad yw'r gwaith yr ydych chi'n ei wneud neu'n bwriadu'i wneud yn cael effaith niweidiol ar rywogaethau a chynefinoedd sensitif a bod camau gwella priodol yn cael eu cymryd. 3. Gwneud yn fawr o gyfleoedd ariannu allanol, archwilio pa opsiynau ariannu a allai fod ar gael i chi, e.e. Glastir a choetiroedd Glastir, cynlluniau treth dirlenwi ac agregau, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr, Cronfa LIFE yr UE.
<p>4. Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Helpu'r bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw i gael y cymorth gorau o ran bioamrywiaeth, e.e. eu cyfeirio at sefydliadau a chyrrff eraill a all helpu (e.e. Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, sefydliadau bywyd gwyllt, undebau ffermio, etc) 2. Gwneud yn fawr o'r adnoddau sydd gennych ar hyn o bryd; ystyried beth sydd gennych a beth y gellir ei gyflawni. 3. Harneisio egni gwirfoddolwyr a'ch cymunedau lleol; cyflawnir llawer dros fioamrywiaeth wrth i wirfoddolwyr a chymunedau lleol gadw'r fioamrywiaeth yn eu hardaloedd; cymryd rhan mewn cynlluniau gwyddor dinasyddion. 4. Gweithio gyda'ch partneriaid i gysylltu ardaloedd naturiol ar draws cefn gwlad ehangach. 5. Gwella a chynyddu'r ddealltwriaeth yn y gymuned ehangach; cofnodi, monitro a rhannu gwybodaeth am y gwaith rydych chi'n ei wneud a'r gwelliannau rydych yn eu gwneud.

<p>5. Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Seilio penderfyniadau ar y Dystiolaeth Orau sydd Ar Gael – gan Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol, Atlas y Gymru Fyw, arbenigedd lleol a'ch partneriaeth natur leol. 2. Rhannu gwybodaeth yn eang.
<p>6. Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion</p>	

ATODIAD 4

Saith Nod Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol

<p>Cymru lewyrchus</p>	<p>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.</p> <p>i Cyswllt: <i>Stuart Walters 3241 neu Helen Morgan 4902</i></p>
<p>Cymru gydnherth</p>	<p>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). i Cyswllt: <i>Rosie Carmichael 2727 neu Isabel Macho 3390</i></p>
<p>Cymru iachach</p>	<p>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.</p> <p>i Cyswllt: <i>Silvana Sauro 2897</i></p>
<p>Cymru sy'n fwy cyfartal</p>	<p>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). i Cyswllt: <i>Llinos Evans 4914</i></p>
<p>Cymru o gymunedau cydlynus</p>	<p>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.</p> <p>i Cyswllt: <i>Kate Thomas 4202</i></p>
<p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>	<p>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. i Cyswllt: <i>Jane Davies 2180</i></p>
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	<p>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.</p>